# FFYDD, GOBAITH a CHARIAD

## Llythyr Bugeiliol at Deulu Asaph oddi wrth yr Esgob
## Dydd Iau Dyrchafael 2022

Sant Paul, yn ysgrifennu at y gymuned Gristnogol gynharaf yng Nghorinth, a nododd fod y tri pheth hyn (Ffydd, Gobaith a Chariad) yn perthyn i'w gilydd ac yn parhau am byth. (Cor 13.13). Rydym wedi'u dewis fel canolbwynt ein bywyd esgobaethol ac maen nhw'n cael eu defnyddio mewn nifer cynyddol o gyd-destunau. Yn fwyaf oll, gobeithiaf y gallwch uniaethu gyda nhw a'u mabwysiadu a'u gweld fel cyfle gwirioneddol ac yn her i'ch disgyblaeth Cristgnogol eich hunain ac i fywyd eich Eglwys.

Mae Ffydd yn ein galw i gerdded yn agosach gyda Duw; mae Gobaith yn ein gwahodd i fod yn hebryngwyr newyddion sy'n cyffroi ac yn rhyddhau; Cariad mewn gweithred, y mwyaf o'r tri, yw'r un sy'n tystiolaethu i'n hymrwymiad i'r ddau arall.

Pan esgynnodd Iesu i'r nef, ni ddylwn ei ddychmygu'n esgyn i'r awyr, ond yn hytrach yn symud o fwrdd chwarae hanes daearol gyda'i chorneli daearyddol tynn a chyfyngiadau o uchder, dyfnder a hyd, ac i'r realiti cyfoethocach o dragwyddoldeb y tu allan i amser a lle, yr ydym yn cyfeirio ato fel teyrnas Duw. Mae wedi'i gofnodi gan yr efengylwyr fod ei gorff atgyfodedig corfforol, wedi trosesgyn yn gorfforol – dywedodd y disgyblion y gallai ymddangos a diflannu fel y myno, ac nad oedd yn bosibl ei adnabod bob amser. Yn hytrach, yn y Testament Newydd, yn ei ddisgyblion ymddiriedwyd i ofalu am ei Gorff, yr aelodau y bydd Duw erbyn hyn yn gweithio ei ewyllus trwyddynt er iachawdwriaeth ac iachâd yn y byd. Mae hyn yn golygu fod gan yr Eglwys ddiben a chenhadaeth, oherwydd os oedd Iesu yn ei fywyd daearol yn arwydd corfforol o Dduw sy'n ewyllusio bywyd, a bywyd yn ei holl lawnder, i'w greadigaeth oll, yna mae'r Eglwys yn etifeddu'r ymddiriedaeth fel ymddiriedaeth am newid, i adnewyddu ac er mwyn meithrin cyfiawnder a heddwch i bawb. "Fel y mae'r Tad wedi fy anfon i, yr wyf fi hefyd yn eich anfon chwi." (Ioan 20.21)

Cefais fy herio gan lyfr o farddoniaeth Gristnogol flynyddoedd maith yn ôl, wedi'i ysgrifennu gan fardd o'r enw Steve Turner. Rwy'n dal i ddyfynu o'i farddoniaeth, a'r canfyddiad miniog sydd wedi'i gorffori yn ei ysgrifennu. Un gerdd a ysgrifennodd yw "Sut i Guddio Iesu", ac mae'n dechrau gyda'r llinellau:

There are people after Jesus.
They have seen the signs.
Quick, let's hide him.

Mae'n her i'r ffordd yr ydym yn byw ein bywyd Eglwysig, ac ie - weithiau rydym yn cuddio Iesu; o dan blanced o arferion cyfarwydd, neu ddewisiadau personol, wedi'i guddio gan iaith dywyll neu dderbyniad oeraidd. Yn hytrach, fel Eglwys rydym yn datgelu Iesu pan fyddwn yn dangos Ffydd, Gobaith a Chariad – yr union rinweddau – sef pam mae'n dda eu rhoi yng nghalon ein cenhadaeth esgobaethol.

Un o'r ffyrdd yr hoffwn eich annog i gysylltu â ffocws yr esgobaeth yn ystod yr wythnosau a misoedd i ddod yw trwy gymryd rhan yng nghwrs newydd yr Esgobaeth ar Ffydd, Gobaith a Chariad, sydd wedi'i gynhyrchu gan dîm yn cael ei arwain gan yr Archddiaconiaid a'n Swyddog Cysylltiadau, Karen Maurice. Bydd y cwrs yn cael ei lansio Ddydd Iau Dyrchafael yn yr Eglwys Gadeiriol a dylai fod ar gael i bawb ei ddefnyddio ym mhob un Ardal Genhadaeth.

Mae'n gweithio trwy fideo a thrafodaeth ac mae wedi'i ddylunio i'n helpu fyfyrio ar ein profiad ein hunain o ddisgyblaeth a'n galwedigaeth fel Eglwys.

Wrth i ni ail adeiladu ac ail ffurfio ein bywyd cyffredin mewn pennod newydd o fywyd, ar ôl cyfnod clo Covid, gadewch i ni adnewyddu'n hymrwymiad i ddilyn Iesu, yr arloeswr a pherffeithydd ein ffydd, a thyfu mewn Ffydd, dod â Gobaith a dangos Cariad.

+GL